LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

THIS IS AN ADVERTISEMENT FOR THE POSITION OF A VOLUNTEER PROJECT CO-ORDINATOR FOR THE WALES BROADCAST ARCHIVE WHERE THE ABILITY TO COMMUNICATE FLUENTLY THROUGH THE MEDIUM OF WELSH IS ESSENTIAL.

Archif Ddarlledu Cymru
Wales Broadcast Archive

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cynnig ystod eang o gyfleoedd cyflogaeth ac mae'n ceisio penodi staff brwdfrydig i weithio o fewn gwasanaethau'r Llyfrgell. Gwahoddir ceisiadau am y swydd ganlynol:

CYDLYNYDD PROSIECTAU GWIRFODDOLWYR
(PROSIECT ARCHIF DDARLLEDU CYMRU)
Band 3: £25,895 - £29,890
Swydd tymor penodol am 18 mis. 37 awr yr wythnos.
Bydd teithio yn rhan hanfodol o'r swydd a gellir negodi trefniadau gwaith hyblyg a hybrid

I wneud cais anfonwch CV a llythyr yn datgan diddordeb sy'n egluro pam eich bod yn ymgeisio a pham eich bod yn ymgeisydd addas

Dyddiad cau derbyn ceisiadau: 2.00 o'r gloch 4 Rhagfyr 2023
Dyddiad cyfweliadau: 13 Rhagfyr 2023

Mae'r pecyn cyflogaeth yn cynnwys 30 diwrnod o wyliau, cynllun pensiwn cyflog terfynol, polisïau sy'n gyfeillgar i deuluoedd, oriau gweithio hyblyg a phrisiau gostyngol yn y bwyty. Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn gyflogwr cyfle cyfartal.

Am becyn gwybodaeth a manylion am sut i wneud cais cysylltwch ag Uned Adnoddau Dynol y Llyfrgell ar 01970 632530/1; neu E-bost: swyddi@llgc.org.uk

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

Disgrifiad Swydd a Manyleb Person

ADRAN 1: MANYLION SWYDD

Teitl Swydd:	Cydlynydd Prosiectau Gwirfoddolwyr Archif Ddarlledu Cymru
Cyfarwyddiaeth:	Cyfathrebu, Ymgysylltu a Phartneriaethau
Adran:	Dysgu ac Ymgysylltu
Isadran:	Datblygu Mynediad, Archif Ddarlledu Cymru
Band:	3
Cyflog:	£25,895 - £29,890
Cytundeb:	18 mis
Lleoliad Gwaith:	Gellir negodi trefniadau gwaith hyblyg a hybrid
Yn adrodd i:	Rheolwr Gweithgaredd Cymunedol Archif Ddarlledu Cymru

Pwrpas cyffredinol y rôl:
Bod yn rhan o Dim Cymunedol Archif Ddarlledu Cymru sydd yn gweithio i sicrhau bod pobl a chymunedau ar draws Cymru yn ymwneud a chynnwys yr Archif. Bydd y swyddog yn gweithio i ddenu gwirfoddolwyr i gyfrannu a datblygu i gynlluniau hyrwyddo a defnyddio'r Archif. Bydd hefyd yn cyflawni gwaith o dorri a chynhyrchu clipiau fideo a sain yn ogystal a chynorthwyo i gynhyrchu ffilmiau byr ar gyfer grwpiau penodol, a gweithio gyda nhw i hyrwyddo'r defnydd o'r casgliadau.

Bydd teithio yn rhan hanfodol o'r swydd hon.

(Bydd hyfforddiant a chymorth ar gael ar gyfer y dyletswyddau).

ADRAN 2: ARCHIF DDARLLEDU CYMRU

Archif Ddarlledu Cymru yw archif ddarlledu genedlaethol gyntaf gwledydd Prydain. Gyda chymorth nawdd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a Llywodraeth Cymru, mae'n dod â chasgliadau BBC Cymru, S4C ac ITV Cymru ynghyd am y tro cyntaf i ffurfio casgliad o tua hanner miliwn o raglenni Cymraeg a Saesneg sydd wedi'u darlledu ar deledu a radio dros gyfnod o ganrif. Yn 2024-25, byddwn yn rhoi mynediad i'r Archif Ddarlledu mewn lleoliadau ledled Cymru ac yn ei chyflwyno trwy raglen o weithgareddau a digwyddiadau.

ADRAN 3: DYLETSWYDDAU ALLWEDDOL

- Denu gwirfoddolwyr i weithio ar brosiectau gwahanol Archif Ddarlledu Cymru
- Trefnu a chyflwyno sesiynau sefydlu a hyfforddi i wirfoddolwyr
- Adnabod tasgau addas ar gyfer gwirfoddolwyr
- Cydlynu rhaglen o waith gyda gwirfoddolwyr i gynnwys gwaith ymchwilio, dethol a golygu clipiau fideo a sain
- Cyfrannu i'r gwaith o gynhyrchu fideos dwyieithog a chynnwys digidol ar-lein
- Chwarae rhan flaenllaw wrth gydlynu a golygu fideo o weithgareddau cymunedol a chreadigol
- Chwarae rhan flaenllaw wrth ddarparu fideo i gefnogi dysgu Cymraeg fel rhan o'r prosiect
- Cefnogi digwyddiadau a gweithgareddau digidol Archif Darlledu Cymru led led Cymru
- Cynorthwyo i ddatblygu platfform cyfrannu torfol ar-lein ar gyfer gwirfoddolwyr y prosiect
- Cefnogi digwyddiadau ymgysylltu allanol y prosiect, ar-lein ac mewn person
- Cynorthwyo i gynnal perthynas â defnyddwyr Archif Ddarlledu Cymru, gan gynnwys ymwelwyr, gwirfoddolwyr ac ymchwilwyr
- Sicrhau fod digwyddiadau prosiect yn cael eu dogfennu trwy ffotograffau a fideos
- Cyfrannu at gynnwys ar gyfer gwefannau Archif Ddarlledu Cymru
- Meddu ar ddealltwriaeth gyffredinol o ddeddfwriaeth gwarchod data a rhyddid gwybodaeth
- Gweithio gyda'r hwyr ac ar benwythnosau i staffio digwyddiadau yn ôl y galw.

Darperir y Disgrifiad Swydd hwn er mwyn rhoi amlinelliad bras i ddeiliad y swydd o'r gweithgareddau sydd ymhlyg yn y rôl hon. Bydd y Llyfrgell am i chi ymgymryd â dyletswyddau eraill nad ydynt o angenrheidrwydd wedi eu cynnwys yn y disgrifiad swydd ond sydd yn gymesur â graddfa'r swydd. Gellir diwygio'r Disgrifiad Swydd o bryd i'w gilydd o fewn y ffin a lefel y cyfrifoldeb sy'n berthnasol i'r swydd hon.
Bydd Hyfforddiant ar gael yn ôl yr angen

ADRAN 4: **CYFRIFOLDEB**

Cyfrifoldeb dros bobl:

- Goruchwylio a threfnu gwaith gwirfoddolwyr
- Cynorthwyo defnyddwyr, gan gynnwys ymwelwyr ac ymchwilwyr
- Gweithredu prosesau yn fewnol a gyda chwmnïau allanol

Cyfrifoldeb dros reolaeth cyllid:

- Sicrhau gwerth am arian dan oruchwyliaeth rheolwr llinell
- Trefnu bod anfonebau yn cael eu talu ayb

ADRAN 5: CYSYLLTIADAU GYDAG ERAILL

Cysylltiadau Mewnol	**Natur y Cysylltiad**
Rheolwr Gweithgaredd Cymunedol, Archif Ddarlledu Cymru (Rheolwr Llinell)	Cynnydd y prosiect, targedau, materion gwaith dyddiol.
Staff Prosiect Archif Ddarlledu Cymru	• Swyddog Ymgysylltu: Clyweled a Chreadigol • Cydlynydd Gwirfoddoli (trefnu grwpiau o wirfoddolwyr), • Staff TG (datrys problemau a chymorth), • Swyddog Hawliau (clirio hawlfraint), • Tîm Marchnata (paratoi cynnwys ar gyfer hyrwyddo digidol), • Staff eraill y prosiect (datblygu cynnwys digidol)
Cysylltiadau Allanol	**Natur y Cysylltiad**
Staff Corneli Clip	Cydlynu gwaith gwirfoddoli a digwyddiadau
Gwirfoddolwyr	Cydlynu tasgau gwirfoddoli a fydd yn cyfrannu at gynnwys digidol y prosiect

ADRAN 6: DATRYS PROBLEMAU

- Problemau ymarferol sy'n codi o fod yn rhan o dîm prosiect sy'n gweithio ar safleoedd gwahanol
- Problemau technegol sy'n gallu codi mewn digwyddiadau
- Problemau bod yn brif pwynt cyswllt gydag chwmnïau allanol
- Problemau cyfathrebu gyda phrosiect cymhleth a nifer o gyfranwyr

ADRAN 7: PENDERFYNU

- Blaenoriaethu gwaith i gyflawni targedau prosiect
- Penderfynu ar addasrwydd y cynnwys
- Blaenoriaethu amser ar gyfer cyrraedd targedau cyhoeddi fideo
- Pryd i gysylltu â rheolwyr neu staff arbenigol
- Penderfyniadau am gynnwys rhai eitemau fideo

ADRAN 8: MANYLEB PERSON

	Hanfodol	**Dymunol**
Cymwysterau	• Safon addysg dda • Trwydded yrru lawn	• Cymhwyster mewn Saesneg neu Gymraeg ee Safon Uwch
Profiad	• Gweithio gyda fideo a/neu sain • Cynllunio gwaith, gosod targedau a chyflawni • Gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm. • Ysgrifennu, golygu a chyfieithu testun	○ Rheoli cyllideb
Gwybodaeth	• Dealltwriaeth sylfaenol o eitemau sgrin a sain	• Gwybodaeth dda am fformatau fideo a ffeiliau sain ayb • Dealltwriaeth am hawlfraint • Gwybodaeth am y sector darlledu a/neu diwylliannol yng Nghymru

Sgiliau	• Sgiliau golygu a chywirdeb iaith (yn y Gymraeg a'r Saesneg) • Sgiliau rhyngbersonol rhagorol • Sgiliau golygu fideo	